**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 15 o Ionawr 2019 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug</u>**

**<u>Presennol:</u>** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Martin Jones, Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Clifford Williams, Phil Roberts, Hefin Jones, Rhys Parry, Meirwen Lloyd.

**<u>Ymddiheuriadau:</u>** Y Cynghorwyr Beca Brown, Richard Robinson, Llywelyn Williams, Alan Pritchard,

**327. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod a diolchwyd i bawb am droi allan.

**328. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**329. Datgan buddiant personol.**

Rhain yw cofnodi fel yn briodol

**330. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2018 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd**.**

**331. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**Cronfa 'Poor House'**

Nodwyd fod y ffurflen gais ar gyfer gwneud cais am gyfraniad o'r uchod yn barod i'w dosbarthu.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Goronwy Hughes i gysylltu a Mrs Puw, Prifathrawes yr Ysgol Gynradd a'r Clerc i gysylltu a Mrs Ellen Williams, Prifathrawes Ysgol Brynrefail

**Cae Chwarae Nant y Glyn**

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn cwyn gan yr heddlu am gyflwr y ffens oddi amgylch cae Nant y Glyn ac fod y ffaith fod y ffens i lawr mewn mannau yn golygu fod criw ifanc yn mynd yno yn hwyr yn y nos.

**Penderfynwyd:** Criw o aelodau fynd draw i gae Nant y Glyn i asesu'r broblem. Cytunodd y canlynol fynd Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Martin Jones a Clifford Williams.

**332. I dderbyn diweddariad ar y clwb ieuenctid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod un aelod o staff y clwb yn rhoi gorau i weithio dwy noson ac ei bod yn mynd i barhau i weithio un noson yn y clwb. Roedd hyn oherwydd iddi dderbyn swydd llawn amser arall.

Adroddodd y Cynghorydd fod y clwb ieuenctid wedi colli allan yn sgil fod y clwb yn hwyr yn agor oherwydd gwahanol resymau ac roedd am gysylltu a Cyngor Gwynedd i holi am gynnal sesiwn o 8 wythnos fel a addawyd yn y cychwyn.

**Penderfynwyd:** Diolchwyd a derbyniwyd yr adroddiad.

**333. I dderbyn adroddiad o gyfarfod pwyllgor y fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac fe drafodwyd y canlynol**.**

**Ymestyn y Fynwent:**

Nodwyd fod y fynwent yn llenwi ac y bydd angen yn y flwyddyn ariannol 2019 / 2020 symud y ffens i agor y fynwent allan ynghyd a cysegru tir. Hefyd bydd angen prisiau ar gyfer ymestyn y llwybrau yn y fynwent.

Adroddwyd fod y Clerc wedi paratoi asesiadau risg ar gyfer y fynwent ac roedd y pwyllgor wedi cytuno i fynd i'r fynwent i bwrpas cario allan asesiadau risg ond oherwydd y tywydd bydd yn rhaid canslo.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i ddosbarthu taflenni asesiadau risg i'r aelodau ac i bawb fynychu yn eu amser ei hunain i lenwi'r ffurflen. Mantais hyn fyddai byddai pawb o bosib yn gweld risgiau gwahanol.

**Trefniadau Casglu Biniau**

Nodwyd fod y biniau yn y fynwent yn cael eu casglu yn reolaidd. Yn anffodus oherwydd absenoldeb Y Cynghorydd Richard Robinson nid oedd mwy o fanylion am y drefn a parthed gwahaniaethu plastig a gwastraff naturiol ar gael.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorydd Hefin Jones i gysylltu a Cynghorydd Richard Robinson i'w holi.

**334. I dderbyn adborth am ddiwrnod casglu sbwriel ac i benderfynu ar ddyddiad cyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden.**

Adroddwyd fod y diwrnod casglu ysbwriel wedi bod yn llwyddiannus dros ben gyda tua 40 o bobl yn troi allan. Nodwyd beth oedd yn galonogol ond fod nifer o bobl nad oedd wedi bod o'r blaen wedi troi fyny.

**Penderfynwyd:** Cynnal diwrnod arall o gasglu ysbwriel ar yr 2 o Fawrth 2019

**335. Praesept ar gyfer 2019 / 2020**

Adroddwyd fod y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod ac wedi mynd drwy'r gyllideb ar gyfer 2018 / 2019 ac yna sefydlu cyllideb ar gyfer 2019 / 2020. Nodwyd fod angen edrych ar oriau gwaith y Clerc a'r cyflog ond mae gwybodaeth o'r fath wedi eithro oddi tan

**Penderfynwyd:** Gosod praesept ar gyfer 2019 / 2020 yn £50,000

**336. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Nid oedd y cynrychiolydd yn bresennol

**337. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Nid oedd y cynrychiolydd yn bresennol

**338. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Oherwydd y gwyliau nid oes llawer I adrodd o'r cyngor y mis yma.

**Cyllideb**

Pleidlais ar gyllideb terfynol Llywodraeth Cymru yn cymryd lle heddiw (15/01/19), fydd hyn yn rhoi y ffigyrau terfynol i Lywodraeth Leol hefyd. Gwaith wedi wneud gan y cabinet i ddarganfod rhai llefydd lle fydd yn bosib wneud toriadau neu arbedion effeithlonrwydd.   Mae y cyngor yn ymgynghori gyda' cyhoedd ar y strategaeth ariannol yma, er mwyn ymateb dyma'r linc, mi fydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 31 Ionawr 2019.
www.gwynedd.llyw.cymru/StrategaethAriannol

**Ysgol Cwm y Glo**

Mi fydd ffigyrau PLASC yn cael eu hel heddiw (15/01/19). Os fydd dim disgyblion ar y rhestr mi fydd yr Aelod Cabinet yn gwneud penderfyniad i gymryd y camau statudol i gau yr ysgol.

**Bysiau**

Arriva wedi gyrru gwybodaeth pellach ynglŷn a newidiadau i Amserlenni bysiau gan gynnwys gwasanaeth 88.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**339.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Stad Bro Rhyddallt**

Cefais gyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ar 8ed Ionawr i drafod cyflwr ffordd y stad. Dywedodd y swyddogion y buasai'r tyllau mwyaf (categori 1) yn cael eu llenwi erbyn 11 Ionawr (bellach mae hyn wedi ei wneud). Hefyd, cytunwyd i ail-wynebu ffyrdd y stad i gyd yn yr haf.

**Stad Glanffynnon: Gwaith Dŵr Cymru**

Cefais gyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ar 8ed o Ionawr i drafod ail- wynebu'r ffordd unwaith mae Dŵr Cymru wedi gorffen eu gwaith. Dywedodd y swyddogion y bydd Dŵr Cymru yn ail-wynebu bob ochr i'w 'trench'. Hynny yw, bron i hanner lled y ffordd o'r gyffordd gyda Ffordd Glanffynnon i lawr i'r gwaelod sy'n ffinio gyda'r hen Garej Hafod. Hefyd, mi fydd Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith sylweddol ar y darnau drwg yr ochr arall i'r ffordd. Gobeithir gwneud hyn yn y gwanwyn. Wedyn, wedi i'r pridd setlo yn y 'trench' (mae hyn yn cymryd rhyw ddwy flynedd), mi fydd yn bosibl ystyried ail-wynebu'r ffordd i gyd gyda 'slurry' - y stwff a ddefnyddiwyd ar Ffordd Glanffynnon. Ychydig flynyddoedd yn ôl.

**Ffordd Crawia**

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu ail-wynebu y rhannau gwaethaf o'r ffordd rhwng Hafan Elan ac Ysgol Brynrefail yn y gwanwyn.

**Ymgyrchoedd Baw Cŵn**

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn nifer o gwynion am gynnydd yn y nifer o achosion baw cŵn, sydd yn ddigwyddiad tymhorol ac fel arfer yn gwaethygu rhwng Nadolig a Pasg. Er mwyn ymateb i bryderon y gymuned mae'r Cyngor am gynnal cyfres o ymgyrchoedd ym mis
Ionawr i ganolbwyntio ar

1. Llanrug – Ffordd yr Orsaf
2. Bethesda – y Stryd Fawr
3. Blaenau Ffestiniog – Canol y Dref a Tanygrisiau
4. Porthmadog at Dremadog - llwybr "Y Cyt"

Dywedodd swyddog: "Y bwriad yw cael "foot patrol" gweledol iawn o gwmpas yr ardaloedd sydd o dan sylw - ac wedyn ail-ymweld yn eithaf rheolaidd. Yn amlwg buasai unrhyw ddirwyon yn fuddiol dros ben i helpu codi ymwybyddiaeth. Mae hefyd angen gwirio'r cyflwr i asesu os oes angen gweithred glanhau arbennig. Bydd yr adran yn darparu a gosod arwyddion codi ymwybyddiaeth dros dro am 1-2 mis (tua 10 i bob lleoliad fel bo angen). Bydd hefyd yn paratoi datganiad FB/Twitter/Wefan/Wasg i gyd-fynd ar ymgyrchoedd yma".

**Cais Cynllunio Cae'r Eglwys, Rhif C18/0942/23/LL.**

Mae cynllun diwygiedig wedi ei gyflwyno : Saith byngalo a dau 'semi'. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys gosodiadau sy'n cynnig trefn parcio gwell na'r cynlluniau blaenorol, a threfn sy'n llai tebygol o arwain at broblemau parcio ar y ffordd. Disgwylir i'r cais gael ei ystyried gan y pwyllgor cynllunio ar 11 Chwefror 2019.

**ARRIVA: Gwasanaeth 88 (Caernarfon – Llanberis – Caernarfon (drwy Llanrug)**

**Mae Arriva wedi cyhoeddi amseroedd newydd ar gyfer Suliau a Gwyliau Cyhoeddus o 27 Ionawr 2019 ymlaen.**

**Am y manylion ewch i'r linc :**
**https://www.arrivabus.co.uk/wales/services/88**

**340. I dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara ar y diffibriliwr**

Adroddwyd fod yr apêl wedi bod yn llwyddiannus dros ben ac fod dau ddiffibriwlwr eisoes wedi eu gosod. Adroddwyd fod un arall yn cael ei osod yn Cwm y Glo ac fod arian ar ôl i brynu un arall.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r Clerc i brynu un arall i'w osod yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Symud ymlaen i drefnu hyfforddiant ar eu defnyddio

**341. I ystyried creu cyfrif gwefan gymdeithasol i'r Cyngor ac i greu polisi ar ddefnydd o wefannau cymdeithasol yn gyntaf.**

Fe ystyriwyd creu gwefan gymdeithasol ar gyfer y Cyngor e.e. tudalen Facebook

**Penderfynwyd:** Peidio symud ymlaen a creu tudalen Facebook

**341. Lleoliad cyfarfod mis Chwefror 2019**

**Penderfynwyd:** Cynnal cyfarfod Chwefror yn Menter Fachwen, Cwm y Glo

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 19 Chwefror 2019